

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 30^{AIN} IONAWR 2020 YNG NGHANOLFAN GWYTHERRIN

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Elen H Edwards (EHE), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), Mark Davies (MD), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll Lewis (GLL), Gwynfor Davies (GD) a Gwydion Jones (G)

1.3 Ymddiheuriadau: Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 27^{AIN} TACHWEDD 2019

DR yn cynnig ac EW yn eilio eu bod yn gywir.

4 MATERION YN CODI 3) UCHOD

DR dŵr yn dod i lawr o'r Crel. DR a CR wedi sylwi fod ochr y ffordd wedi altro yn dilyn gwaith diweddar.

5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

5.1 Mainc Solar: trafodwyd safle ger yr arhosfan bws eto. EW i gysylltu â Meira Woosnam (Conwy) i drefnu ail-leoli. Angen cael prisiau ar gyfer y gwaith, penderfywyd gofyn am bris gan Kevin Roberts gan ei fod wedi ei lleoli'r tro cyntaf. EW hefyd i drefnu hysbyeb i'w roi ar y wefan i ofyn am brisiau gan gontractwyr eraill gyda dyddiad cau 22^{ain} Chwefror 2020. Trafodwyd y buasai'n syniad da cael rhestr o gontractwyr lleol i wneud gwaith achlysurol ar ran y Cyngor Cymuned, hysbyseb i'w rhoi ar y wefan yn gofyn i gontractwyr lleol sydd â diddordeb i gysylltu â'r Cadeirydd.

5.2 Ffordd Buarth Cerrig: REW yn adrodd fod y gwaith wedi ei gwblhau bellach.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

6.1 0/46994: dim sylw na gwrthwynebiad, cefnogi'r cais.

6.2 0/47008: trafodwyd fod cyfyngiad ynglyn â'r dŵr gwastraff ynglwm a'r cais gan CCBC. Gofyn os yw'r cais yn ôl-weithredol.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Presept 2020/21: DR wedi paratoi dogfen gwariant 2019/20. Eglurodd DR y ddogfen yn fanwl i'r Cynghorwyr. EHE wedi paratoi dogfen gwariant cyllideb 2020/21. EW wedi derbyn anfoneb am y sgipiau, cadarnhau swm anfoneb yn £480. Trafodwyd bydd trefniadau yn cael ei wneud yn ystod y misoedd nesaf i drefnu bore coffi i ymgysylltu'r cynghorwyr â'r gymuned yn y 3 pentref, penderfynwyd adio hyn yn newydd i'r presept 2020/21. Trafodwyd ffigyrau'r presept ar y ddogfen yn fanwl a phenderfynwyd ar y ffigyrau terfynnol ar gyfer 2020/21. EHE i yrru'r ffurflen i mewn i'r Cyngor Sir cyn y dyddiad cau 7^{fed} Chwefror.

7.2 Calendr y Cyngor: EW yn codi fod angen adio dechrau cysidro'r presept ym mis Hydref.

7.3 Safle Wê: EW i gysylltu efo Arfon Parry i ddiweddarau'r wefan fel bo angen.

7.4 Diwygio Rheolau: penderfynwyd trafod hyn yn ystod y cyfarfod nesaf.

7.5 Hen ddogfennau i'r archifdy: REW wedi bod yn yr archifdy ac wedi deall fod 15 o hen ddogfennau'r Cyngor Cymuned gan yr archifdy'n Rhuthun yn barod. Trafodwyd a

phenderfynwyd fod modd ysgrifennu at yr archifdy'n Rhuthun i ofyn i'r dogfennau gael eu trosglwyddo i archifdy Sir Conwy a mynd a'r dogfennau diweddaraf atynt i Gonwy. REW i ysgrifennu at yr archifdy'n Rhuthun i wneud trefniadau â chysylltu â'r archifdy yng Nghonwy i wneud trefniadau i'w trosglwyddo a mynd a'r dogfennau eraill yno.

8 MATERION ARIANNOL

8.1 Mandad Banc: Adroddodd EW ei bod wedi mynychu cyfarfod efo'r banc ac wedi cael esboniad. Mandad newydd i'w gwblhau gan y cynghorwyr sydd yn mynd i fod yn arwyddo sieciau a'i ddychwelyd i'r banc. Bydd angen i'r cynghorwyr fynychu'r banc efo'u dogfennau adnabod pwrpasol fel y gofynnir gan y banc. Penderfynwyd fod REW, GD, GJ, EW a MD i arwyddo sieciau ar y fandad newydd.

Adroddodd GD ei fod wedi siarad â'r banc ynglyn a chyfrif Cronfa Bro Cernyw ac o'r diwedd yn gallu cadarnhau fod y mater wedi ei gwblhau.

9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

Esboniodd GLL fod treth y Cyngor yn mynd i godi tua 7% yn ôl rhagolygon gyda thorriadau pellach yn y sector addysg ac eraill ac y byddai hyn yn cael ei gyhoeddi pan fydd gwariant wedi ei gadarnhau ym mis Mawrth. Eglurodd GLL fod y Cyngor eisiau cael gwared â chyfleusterau yn y cymunedau ac am i'r cynghorau lleol eu cymeryd drosodd. Angen polisi i'r cynghorau trefol ond angen bod yn ofalus cyn ystyried pasio'r cyfleusterau ar y cynghorau gwledig. Angen edrych ar fathau naturiol o barciau chwarae i blant megis parc Eglwysbach.

Lawnsiwyd y Clwb Busnes newydd i gefn gwlad yn y Foelas, Pentrefoelas wythnos diwethaf. Wedi cael ymateb da iawn i'r noson gan bawb a fynychodd. Bwriedir cynnal y Clwb bob deufis a'i wneud yn agored i bob math o fusnesau yng nghefn gwlad fynychu. Cyfle i gymdeithasu a rhannu syniadau busnes a denu siaradwyr diddorol. Adroddoed EW ei bod wedi clywed adborth da i'r noson hefyd.

Yn anffodus problem barhaol baw cŵn wedi codi eto'n ddiweddar yn Llangernyw. Adroddodd GLL fod y cyngor wedi bod allan yn glanhau'n gyflym iawn.

Polyn trydan wedi gwyro yn Llangernyw, cwmni trydan yn mynd i ddod allan i drwsio'r polyn yn ystod y pythefnos nesaf.

Wedi ysgrifennu ddwywaith at Mrs Maceson-Sandbach eto'n ddiweddar, dal heb glywed yn ôl ganddi ynglyn â thynnu adeilad yr Hen Efail i lawr. Trafododd y cynghorwyr fod pryder mawr yn lleol am gyflwr yr adeilad.

10 BILIAU

10.1 Enlli: £65.39, talwyd.

10.2 Canolfan Gymunedol Bro Cernyw: £47, talwyd.

10.3 Sgipiau: £480, talwyd.

11 MATERION LLEOL

REW ffurflen Côt Ymddygiad i gynghorwyr newydd. Cwblhaodd ac arwyddodd MD y ffurflen bwrpasol.

Cwyn am loriau mawr yng Ngwytherin, gofyn am arwyddion i rybuddio fod y ffordd yn gul. GLL i holi am hyn.

Llyn dŵr wrth y Bont Faen yn Llangernyw. GLL am gysylltu â'r Cyngor Sir ynglyn â hyn.

Safle bws Gwytherin: cwyn nad oes cysgod i blant ysgol pan mae'n bwrw glaw. GLL i wneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir.

GJ Newidiadau i'r cyfleusterau ailgylchu, y cyfleusterau newydd yn mynd i fod yn llai. Trafodaeth ynglyn â bagiau clytiau babi ddim yn rheolaidd. GLL am wneud ymholiadau.

DR wedi cael cwyn gan aelod o'r cyhoedd yng Nglan Collen, coed wedi tyfu dros ffordd gefn tu ôl i'r tai, ddim wedi cael ymateb cadarnhaol gan berchennog y clawdd. Dim all y Cyngor Cymuned wneud gan fod hyn yn fater preifat.

Car hefyd wedi bod yn sefyll ers misoedd yn Glan Collen, DR i gysylltu â'r heddlu.

Ffordd ger Tan Ffos wedi rhoi. GLL i wneud ymholiadau.

Problemau twrch daear eto yn y fynwent yn Llangernyw, Kevin Roberts yn delio â hyn.

EHE wedi cerdded llawer o lwybrau cyhoeddus yn lleol dros y gwiliau, llawer o gamfeydd ar goll ar y llwybrau yn dilyn planu gwrychoedd a ffensio newydd. Wedi hysbysu'r mater i'r Cyngor Sir.

AV damwain wedi bod ger y Felin yn Llangernyw yn ddiweddar, cwyn fod pobl yn gyrru allan o Langernyw am gyfeiriad Llanrwst. Gofyn os oes modd symud yr arwyddion 30mya yn bellach allan o'r pentref. Cododd DR fod y golau stryd yn gorffen lle mae'r arwyddion 30mya ar hyn o bryd. Posibilrwydd o gael arwyddion newydd. CR yn adrodd fod yr un broblem ar ochr arall y pentref gan fod tai newydd wedi eu hadeiladu bellach. GLL am wneud ymholiadau.

Dŵr ar y ffordd ger Coed Digan a Glanrafon eto'n ddiweddar.

Codi'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod ymgysylltu â'r gymuned ar y trydydd dydd Sadwrn yn y mis yr un pryd a'r sgipiau yn Llangernyw - i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

EW wedi derbyn cwyn am ffordd leol, wedi defnyddio Report It.

12 **CYFARFOD NESAF**

26^{ain} Chwefror 2020

Cyfarfod yn dod i ben 9:45yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan

Eitemau ar agenda nesaf:

- Diwygio Rheolau Sefydlog ac Ariannol y Cyngor
- Bore coffi ymgysylltu a'r gymuned